ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

ICT Year 1

Uned 1D: Labelu a dosbarthu

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu bod modd defnyddio darnau allweddol o wybodaeth i ddisgrifio gwrthrychau. Maen nhw hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio meini prawf syml i rannu grwpiau o wrthrychau yn is-setiau, ac adnabod gwrthrychau yn ôl geiriau allweddol. Byddant yn defnyddio prosesydd geiriau gyda banc geiriau i gyflwyno gwybodaeth.

Gellir addysgu'r uned hon yn y dosbarth derbyn.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn yr uned hon wrth ddidoli gwrthrychau mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant yn:

- deall cysyniad mawr a bach
- deall y geiriau ysgrifenedig ar gyfer lliwiau gwahanol
- gallu defnyddio prosesydd geiriau gyda banc geiriau.

Mae'r uned hon yn darparu sylfaen ar gyfer unedau ar gronfeydd data.

Geirfa:

gwybodaeth | geiriau allweddol

Adnoddau:

amrywiaeth o beli a blociau mawr a bach lliwgar | labeli maint a siâp | lluniau o'r gwrthrychau ar gardiau | prosesydd geiriau gyda banc geiriau a chyfleuster mewnosod graffeg | banc geiriau gyda siapau, meintiau a lliwiau

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio geiriau allweddol i labelu a dosbarthu gwrthrychau.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio disgrifiadau personol i ddisgrifio gwrthrychau.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio geiriau allweddol o gategorïau gosodedig i labelu a dosbarthu gwrthrychau.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr olygfa			
• **syniad allweddol:** bod darnau allweddol o wybodaeth yn gallu disgrifio gwrthrychau	• Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod nhw wedi colli gwrthrych ac anogwch nhw i'w ddisgrifio i'r dosbarth fel bod plant eraill yn gallu eu helpu i ddod o hyd iddo. Trafodwch sut mae rhai ffyrdd o'i ddisgrifio yn well na rhai eraill, o bosib. Dywedwch fod modd i ni ddarganfod llawer o 'wybodaeth' am wrthrych..	• ddefnyddio'r gair 'gwybodaeth'.	• Bydd rhai plant yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng disgrifiadau personol, ee *'dyna fy ffefryn'*, a disgrifiadau gwrthrychol, *ee 'mae wedi'i wneud o bren'*
Tasgau byr wedi'u ffocysu			
• **syniad allweddol:** ei fod yn bosib defnyddio geiriau allweddol i ddisgrifio gwrthrychau	• Gofynnwch i blentyn ddewis gwrthrych o gasgliad o wrthrychau, gan gynnwys peli a blociau mawr a bach lliwgar, a gofynnwch i'r plant ddweud beth yw ei liw a'i faint. Gofynnwch i'r plant ddewis cerdyn sy'n dangos y lliw ac un arall sy'n dangos y maint. Wedyn gofynnwch iddynt restru'r geiriau *ee pêl, mawr, coch* ac wedyn dweud y frawddeg, 'Pêl fawr goch yw hi'. Dywedwch wrth y dosbarth bod modd iddynt ddweud llawer o bethau eraill am bob gwrthrych. Gofynnwch iddynt ddisgrifio siâp, arogl, teimlad a blas.	• nodi geiriau allweddol sy'n disgrifio gwrthrychau	

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu (parhad)			
• **syniad allweddol:** bod modd rhannu gwrthrychau yn ôl meini prawf	• Cymerwch gasgliad o wrthrychau, gan gynnwys peli a blociau mawr a bach lliw. Gofynnwch i'r plant gymryd tro i'w rhannu'n ddwy set. Gofynnwch i'r dosbarth ddyfalu'r maen prawf a ddewiswyd.	• nodi meini prawf sy'n rhannu set o wrthrychau.	
• **syniad allweddol:** bod modd adnabod gwrthrychau o eiriau allweddol	• Cymerwch gasgliad o wrthrychau gan gynnwys peli a blociau mawr a bach lliw. Gofynnwch i'r plant gymryd tro i roi dau air sy'n disgrifio un o'r gwrthrychau, fel 'mawr' a 'coch'. Wedyn gofynnwch i'r dosbarth enwi'r gwrthrych. Gofynnwch i'r dosbarth pam mae'n haws gwneud hyn weithiau. Trafodwch briodweddau unigryw pob gwrthrych a'r priodweddau mae'r gwrthrychau yn eu rhannu	• deall y gwahaniaeth rhwng meini prawf cyffredinol a meini prawf penodol	
Tasg Asesu			
• disgrifio *gwrthrychau* gan ddefnyddio geiriau allweddol	• Paratowch fanc geiriau sy'n cynnwys enwau, siapiau, meintiau a lliwiau gwrthrychau. Esboniwch i'r dosbarth y bydd pob un ohonynt yn dewis gwrthrych ar y sgrîn ac yna'n rhoi gwybodaeth amdano. Gofynnwch i'r plant, un ar y tro, ddewis gwrthrych ac wedyn clicio ar yr enw, y maint a'r lliw priodol yn y banc geiriau. Argraffwch y wybodaeth ar labeli a gofynnwch i bob plentyn labelu eu gwrthrych. Gellir arddangos y gwrthrychau wedyn.	• sylweddoli bod gan wrthrychau briodweddau • darparu gwybodaeth am wrthrychau	• Bydd rhai plant yn cael y dasg hon yn hawdd tra bydd angen *sawl* cynnig ar eraill cyn iddynt lwyddo i ddarparu gwybodaeth am wrthrych.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website